Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cynllun gweithgaredd

# Ysgrifennu cynllun llifogydd

| | |
|---|---|
| **Amser a awgrymir ar gyfer y gweithgaredd** | **40 munud a mwy** |
| **Lleoliad** | **Unrhyw leoliad** |

## Cyd-destun

Mae'r gweithgaredd hwn yn herio'r dysgwyr i ysgrifennu cynllun llifogydd, gan alluogi unigolion neu grwpiau i baratoi ar gyfer llifogydd, gan eu cefnogi i allu ymateb yn gyflym os bydd llifogydd.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gwarchod aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a darparu dyfodol gwell i bawb.

## Cwricwlwm i Gymru

| Iechyd a Lles | Y Dyniaethau | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu |
|---|---|---|
| • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill. | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol. | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu. |
| • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu. | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol. | |

## Amcanion

**Bydd dysgwyr yn gallu:**

- Nodi ffyrdd o gadw eu hunain a phobl eraill yn ddiogel os bydd llifogydd.
- Rhoi eu cynllunio ar waith a gwerthuso eu penderfyniadau.
- Cyflwyno a mynegi eu meddyliau a'u syniadau i bobl eraill.

## Offer ac adnoddau a awgrymir

- Templed – Cynllun llifogydd ysgolion
- Templed – Cynllun llifogydd personol
- Deunyddiau ysgrifennu – pensiliau, pennau ysgrifennu ac ati.

## Awgrymiadau i gwblhau'r gweithgaredd hwn

- Gallech chi ddechrau'r gweithgaredd hwn drwy ofyn i'ch dysgwyr a ydyn nhw'n gwybod beth yw cynllun llifogydd.

  Yn ei hanfod, rhestr wirio yw cynllun llifogydd sy'n helpu unigolion neu grwpiau i baratoi ar gyfer llifogydd.
- Gall eich dysgwyr awgrymu pam y mae'n syniad da cael cynllun llifogydd ar waith.
- Gallech herio eich dysgwyr i ysgrifennu cynllun llifogydd. Yn eu barn nhw, pa wybodaeth y dylid ei chynnwys? Mae'r templedi canlynol ar gael neu fe allech chi awgrymu bod eich dysgwyr yn ysgrifennu eu rhai eu hunain.
- Templed – Cynllun llifogydd ysgolion
- Templed – Cynllun llifogydd personol

  Gallech ofyn i'ch dysgwyr roi adborth am eu syniadau a'u trafod.
- A all eich dysgwyr feddwl am unrhyw un sydd angen gwybod am y cynllun llifogydd? A allant gyflwyno eu cynllun i'w rhieni, i ddisgyblion eraill, i athrawon, y pennaeth neu'r gofalwr?
- Yn eu barn nhw, ymhle fyddai'r lle gorau i gadw eu cynllun llifogydd?
- Yna gallwch chi ymarfer senario lle mae llifogydd ar fin digwydd a gofyn i'ch dysgwyr ymarfer rhoi eu cynllun llifogydd ar waith. Oedd pawb yn ymwybodol o beth i'w wneud? Oedd y rhifau cyswllt yn gywir? A allant werthuso eu cynllun – a oes angen ei wella? A oes angen hyfforddiant pellach?
- Gellid herio'ch dysgwyr i ysgrifennu gweithdrefn i sicrhau bod eu cynllun llifogydd yn cael ei wirio a'i ddiweddaru'n rheolaidd.

## Cwestiynau allweddol a awgrymir

- Beth yw cynllun llifogydd?
- Pa wybodaeth y dylid ei chynnwys mewn cynllun llifogydd?
- Pwy sydd angen gwybod bod cynllun llifogydd wedi'i greu?
- Beth ddylech chi ei wneud os caiff y cynllun llifogydd ei roi ar waith?

## Addasiadau a awgrymir ar gyfer gwahanol anghenion/galluoedd

- Gallech chi gynnal y gweithgaredd fel un grŵp.
- Gallech chi roi eitemau allweddol i grwpiau gwahanol o ddysgwyr eu hystyried, fel car y teulu, anifail anwes y cartref, allweddi ysgol neu eiddo personol penodol.
- Gofynnwch i'ch dysgwyr weithio'n annibynnol i greu cynllun llifogydd ysgol unigol neu gynllun llifogydd personol.

## Gweithgaredd dilynol / tasg estynedig a awgrymir

Rhowch gynnig ar ein gweithgareddau eraill:

- Cynllun gweithgaredd – Peryglon llifddwr
- Cynllun gweithgaredd – Sut i baratoi ar gyfer llifogydd
- Cynllun gweithgaredd – Effeithiau llifogydd
- Cynllun gweithgaredd – Ymchwilio i effeithiau emosiynol a seicolegol llifogydd

**Dysgu yn yr amgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.**

**Chwilio am fwy o adnoddau dysgu, gwybodaeth a data?**

Ewch i: **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Fformat gwahanol: print bras neu iaith arall, cysylltwch â:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

**0300 065 3000**



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**